

## **Sasiwn Genhadol Chwiorydd De Cymru**

Yn Sasiwn Chwiorydd y De, a gynhaliwyd ym Mrynaman yn gynharach eleni, cyflwynodd Mrs Edna Thomas, Rehoboth, Trysorydd y Pwyllgor, sic o £14,500 i'r Parchedig D. Andrew Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Casgliad Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De dros y flwyddyn ddiwethaf oedd hwn.

Mewn llythyr o ddiolch at Mrs Edna Thomas, dywed Mr Jones, 'Llawenhawn yn fawr yn llwyddiant ymdrech ein chwiorydd eleni eto. Mewn oes pan yw cymaint o fywyd yr Eglwys i'w weld yn colli tir, gwerthfawrogwn yn fawr weithgarwch y chwiorydd sydd, nid yn unig yn codi symiau ariannol rhyfeddol, ond hefyd, drwy eu gweithgarwch ar bob lefel, yn cyfrannu'n helaeth at ein bywyd ysbrydol.'

### **Annwyl Olygydd,**

Ga' i ategu'r hyn a ddywed Llinos Dafis yn ei llythyr yn rhifyn yr haf o *Gair o'r Garn*? Ie! Pob gair ohono, a hefyd ychwanegu, 'I ble'r aeth yr AMEN?' a pham?

Mae'r amserau wedi newid, a ninnau wedi ein llusgo ar lwybrau dieithr heb i ni gael y cyfle i feddwl, rhesymu nac ystyried, yn ein gorawydd i 'ddilyn yr oes' – nyni, y truenusaf o addolwyr cred, onidê?

Darlener y Golygyddol yn y *Goleuad* yr wythnos hon (12 Medi) a hefyd 'Homili'r Wythnos' gan y Parchg Ifor ap Gwilym (Abergele) oddi tano.

A DDARLLENO, YSTYRIED,  
A YSTYRIO, COFIED;  
A GOFIO, GWNAED;  
A WNÊL, PARHAED.

*Gaenor Hall*

### **Cadeirydd yr Ofalaeth**

Mr J T Brian Davies,  
Rhos, Taliesin,  
Machynlleth, SY20 8JG  
betidavies@btinternet.com  
(01970 832239)

### **Ysgrifennydd yr Ofalaeth**

Mr John Leeding,  
Glannant, Taliesin,  
Machynlleth, SY20 8JH  
glannant@googlemail.com  
(01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 Rhagfyr:

Mr Dewi G Hughes  
Bod Hywel, Bow St



(01970 828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes  
14 Maes y Garn, Bow St

(01970 828662)




marian\_hughes@btinternet.com



Cyfres newydd, rhif 5

Hydref 2008



*Myfi yw Bara'r Bywyd*

*Annwyl ffrindiau,*

Ymhlith y ffrwythau a'r llysiau y byddwn yn siŵr o'u canfod yn addurno ein capeli a'n heglwysi adeg Gŵyl Ddiolchgarwch y Cynhaeaf, y mae bron bob amser dorth o fara. Wrth gwrs, symbol yw'r bara o'r cynhaeaf yn ei gyfanrwydd, yn cynrychioli ffrwythau'r ddaear a llafur dwylo dyn – yr hyn y diolchwn oll i Dduw amdanynt.

Yr oedd gan yr Arglwydd Iesu lawer i'w ddweud am fara ac fe'n dysgodd i ddeisyf wrth weddio ar ein Tad nefol, 'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.' Nid yw dyn yn hunan-ddigonol er ei holl wybodaeth a'i sgiliau technegol, gwyddonol a chyfrifiadurol. Ni all fyw heb Dduw ac wrth weddio am ei fara bob dydd a diolch amdano, yr hyn a wna yw cydnabod daioni'r Creawdwr a'i ddibyniaeth arno. 'Ar ei drugareddau yr ydym oll yn byw,' ac y mae'r cynhaeaf yn dangos hynny'n glir. Yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn, felly, rhown ddiolch am fod y bara yn arwydd o gynhaliath ddigonol Duw i'n cyrff.

Ond nid yw Gweddi'r Arglwydd yn gorffen gyda'r geiriau 'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.' Â yn ei blaen, 'a maddau i ni ein dyledion.' A dyna'r Weddi felly yn cysylltu'r ddwy agwedd sylfaenol ar fywyd, sef y corfforol a'r ysbrydol. Gwyddai'r Iesu fod cymaint o angen maddeuant ar ein heneidiau ag a oedd o angen bara ar ein cyrff. Yn anffodus, ni ellir dweud fod y rhan fwyaf o bobl heddiw yn ymwybodol o'u hanghenion ysbrydol a thybiant nad yw derbyn maddeuant yn ystyriaeth bwysig o gwbl. Ond a fyddai'r Iesu wedi ein dysgu i ofyn i Dduw am faddau i ni ein pechodau oni bai fod pechod yn rhywbeth real, a maddeuant yn gwbl angenrheidiol? Onid oes arnom angen maddeuant Duw yn feunyddiol, cymaint yn wir â bara?

## **Barbeciw'r Garn**

Nos Wener,  
18 Gorffennaf, er  
gwaethaf y tywydd  
anffafriol, daeth tyrfa  
dda ynghyd i ysgoldy  
Bethlehem, Llandre, i  
fwynhau'r barbeciw  
blynyddol.



Roedd gwledd wedi'i  
darparu ar ein cyfer gan  
Dwysli Peleg-Williams  
a'i thîm, a'r cogydd  
prysur oedd Penri James.

Cadeirydd y pwyllgor  
gweithgar oedd Alan  
Wynne Jones,  
a chafwyd  
cydweithrediad parod  
Elina Davies,  
gofalwraig Bethlehem,  
gyda'r paratodau.



## “A thrafodwyd cyflwr ysbrydol yr eglwys ...”

Wrth eistedd oriau meithio Yn oerni'r festri laith, Yn trafod dwfn broblemau Ein strategaethau maith.	Gadawsom iti gerdded Ymhell drwy ddryswch byd Nes bron â cholli nabod Ar faint dy glwyfau drud.
Dadleuwn fyd a betws Yn seciwlaraidd ddoeth, Heb weled delw'r groesbren O'r mur yn rhythu'n noeth.	Os wyt ti yma, Iesu, Yn nhryblith mawr dy saint Sy'n dyrys ddadansoddi Pob technolegol fraint,
Disgynnaist, Grist, oddi arni Ddwy filflwydd bell yn ôl A ninnau yn ei chysgod Yn dal i ddadlau'n ffôl.	Fydd gennym fawr o amser Heno i'th gwmni Di A'r ystadegwr manwl Wrth fôn ein sodlau ni.
Mewn trymion esboniadau Y buom yn tin-droi A thithau'n cerdded strydoedd A'u drysau wedi cloi.	Dy yrru wnawn i sugnen O eiriau dethol, bras, Sy'n achub yr enwadaeth A'u cadw yn y glas.
Taflwn y gweddill bara A dorrrwyd nos y Cwrdd I adar yn y perthi – Dy gorff fu ar y bwrdd.	Duw ŵyr ple caet dy eni Heddiw, mewn dyddiau gwell, A'r stablau'n wrthodedig Rhag heintiau'r Dwyrain Pell.
A'r gwin gysegrwyd gynnuau Yw'r gwaed a fu ar daen, Fe'i clywn wrth ei afradu Yn pecial yn y draen.	Ac wedi “Gras ein Harglwydd ...” Awn mas â surbwch wedd A'th adael yma'n delwi Gyda'r Cenhadon Hedd.

*Rydym yn ddiolchgar iawn i Vernon Jones am ganiatâd i gyhoeddi'r gerdd uchod o'i eiddo, a llongyfarchwn ef yn galonnog iawn ar ei gamp yn ennill cadair Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Awst 2008.*

Y gwir amdani yw i'r Arglwydd Iesu ei Hun ddweud, pan gafodd ei demtio gan Satan yn yr anialwch, na all dyn fyw ar fara yn unig. Efallai y gall fodoli ar fara yn unig, ond ni all fyw ar hynny. Rhaid wrth rywbeth amgenach, sef yr Efengyl Sanctaidd. Dim ond wrth wrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud y gall dyn fyw y bywyd llawn yng Nghrist Iesu, dim ond wedi iddo agor ei galon i'r Efengyl ac ymateb i'r Hollalluog mewn ffydd, addoliad, ufudd-dod a gostyngieddrwydd y gall ddod o hyd i deyrnas Dduw.

Y mae yna newyn yng nghalonau pob yr un ohonom na all neb ei ddiwallu, ond Iesu Grist ei hun. Ni ellir byth ddod o hyd i'r bywyd newydd tra bo gennym gyrff cyflawn ac eneidiau gwag; a'r hyn y mae ein heneidiau yn dyheu amdano yn fwy na dim yw cymdeithas â'n Creawdwr, yr Hwn sydd wrth wraidd ein bodolaeth.

Felly, yn ystod ein cyfarfodydd diolchgarwch eleni, gadewch i ni gofio nad y bara sydd yn diwallu ein cyrff yw'r rhodd fwyaf a gawsom gan Dduw, ond y gras sydd yn adfer ein heneidiau. Ni allwn fyw ar fara yn unig. Yr ydym yn ddibynnol ar Air Duw, ar yr Hwn a ddywedodd 'Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi' (Ioan 6:35). Yng ngeiriau emyn cyfarwydd y Parchedig Tudor Davies:

Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,  
d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;  
nid digon popeth hebot ti:  
bara ein bywyd, cynnal ni.


Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas,

Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

Y ddafad golledig


Mathew 18: 10 - 14



Bydd yn mynd i chwilio  
am yr un sydd ar grwydr.

(Mathew 18: 12)

Helpa'r bugail ddod o hyd i'r ddafad.



Chwilio'r Geiriau.

A	U	D	U	T	R	E	N	U	S
O	E	F	A	I	D	E	C	P	Y
C	L	O	H	Y	F	W	S	U	C
D	O	A	N	O	I	L	Y	Ng	A
D	U	U	E	Ch	I	Th	U	A	N
A	P	Dd	W	S	P	L	A	N	T
T	E	B	A	U	A	N	I	Y	T
E	W	Y	U	Y	S	Y	S	W	U
N	A	S	P	O	N	T	O	E	Ch
C	O	R	D	Y	W	R	C	R	P

PLANT  
ANGYLUON  
TAD  
NEFOEDD  
CANT  
DEFAID

UN  
CRWYDRO  
CHWILIO  
LLAWENHAU  
BWYLLYS  
COLL

'Y capeli yn gwastraffu arian yn cynnal a chadw hen adeiladau diflas a diangen ... onid gwell fyddai gwario ar gyfathrebu trwy greu gwefannau? ... dim ond chwe eglwys Gymraeg allan o ryw 700 o fewn y Cyfundeb sydd â gwefan ... sut mae'r lleill yn cyfathrebu? ... maen nhw'n bodoli fel rhyw ynysoedd unig mewn môr o anobaith ... diflas ...' etc. etc.



Wel, a bod yn onest, dyna yw fy marn. Mae hawl gen i, does bosib, i leisio'r farn honno, hyd yn oed os nad oes gen i ateb, neu yn sicr yr holl atebion i sefyllfa drist a diflas ein crefydd.

Roeddwn hefyd wedi anghofio bod y rhelyw o raglenni yn cael eu golygu. Rwy'n dweud hyn am i mi ganmol Capel y Garn am fod yn fwy blaengar na llawer i gapel ond i hynny ddiflannu am i siswrn y golygydd ei ddileu er mwyn cydymffurfio â therfynau amser haearnau y BBC. Does ond gobeithio y caf felly rywfaint o faddeuant gan fy nghyd-grefyddwyr i'm galluogi i barhau i fyw yn ddedwydd yn fy ardal fy hun.

Fy mwriad, wrth gwrs, oedd ceisio procio ymateb. Freuddwydiais i erioed y byddai cymaint o drafodaeth yn dilyn – sylw ar y newyddion, y papurau newydd a chylchgronau, a sgwrs radio arall a ddenodd gynifer o alwadau ffôn fel y bu'n rhaid neilltuo rhaglen awr gyfan i drafod y pwnc.

O feddwl am drai a'r diffyg diddordeb honedig mewn crefydd heddiw, onid yw hi'n syndod bod cymaint o ymateb i sylwadau beirniadol un person digon dinod ar bwnc y mae llawer yn meddwl sy'n amherthnasol yn y byd cyfoes.

Peidiwch â meddwl am funud bod crefydd wedi marw.

*Er gwybodaeth, dyma rai ystadegau am wefan y Garn (www.capelygarn.org): yn ystod y tri mis Mehefin–Awst 2008 cafwyd 1352 ymweliad â'r wefan, gan 610 o wahanol ymwelwyr. Edrychodd y rhain ar gyfanswm o 5715 o dudalennau. Roedd 1252 o'r ymweliadau gan bobl yn y Deyrnas Unedig, 33 o America, 9 o Ffrainc, a nifer hefyd o wledydd eraill megis Awstralia a'r Almaen.*

Llongyfarchiadau i Charlotte Drakeley, y Garn, enillydd cystadleuaeth 'Tudalen y Plant' y tro hwn.

Y gamp y tro yma yw cwblhau taflen 'Y Ddafad Golledig'. Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul os dymunwch, erbyn 1 Rhagfyr. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het. Cofiwch roi eich enw ar y daflen.



## DWEUD FY NWEUD

Wynne Melville Jones

Peth peryglus yw cytuno i wneud cyfweliad ar y radio neu'r teledu ac mae hynny gymaint yn fwy danjerus os mai crefydd yw'r pwnc.

Oherwydd natur fy ngwaith byddaf yn derbyn gwahoddiadau yn achlysurol i roi sylwadau ac i ymateb i sefyllfa ar y cyfryngau. Gall hynny amrywio o storïau yn ymwneud â sêr y byd adloniant a chwaraeon neu sut y gall sefydliadau a chwmnïau ddod allan o bydew dudew y maent wedi syrthio yn annisgwyl iddo. Prin iawn yw fy adnabyddiaeth o'r personoliaethau a rhai o'r sefyllfaoedd hyn yn aml ond mae gen i, fel rheol rwy'n gobeithio, syniad sut i ddod o hyd i ryw fath o ateb PR.

Ar ddechrau'r haf eleni derbyniais wahoddiad i gymryd rhan ar raglen grefyddol, ddigon cysurus ei steil, ar BBC Radio Cymru sy'n rhoi cyfle i'r gwesteion drafod eu ffydd. Ar ddydd y recordio, fel arfer cefais fy nhywys i stiwdio fechan oedd fel cell unig yn y BBC yn Llandaf. Fe'm rhoddwyd i eistedd wrth ymyl bwrdd crwn gyda chlustffonau am fy mhen a'm gadael yno ar fy mhen fy hun i aros am gysylltiad o Fangor ac i glywed llais yr holwr lawr y lein.

Dyma'r sgwrs yn cychwyn am fy nghefnidir fel mab y Mans ym 50au a 60au'r ugeinfed ganrif, cyfnod pan oedd y capel a chrefydd yn dal yn ganolog yn y cymunedau Cymraeg. Hynny wedyn yn arwain at fy marn am sefyllfa crefydd y dyddiau hyn a'r 'rhwystredigaeth anorod i ddyn PR o fod yn ymwneud â sefyllfa ddiflas a blinedig y capeli'r dyddiau hyn ...'

Dyma'r llifddorau yn agor a minnau nawr yn cael llwyfan a rhyddid i fynegi fy ngwir deimladau am sefyllfa drychinebus crefydd yn y rhan fwyaf o gapeli heddiw. Roeddwn bellach wedi llwyr anghofio bod yna neb arall ar wahân i'r holwr yn gwrandao ar fy mherorasiwn.



Diolch i sgiliau cogyddol Penri James a llygedyn o heulwen annisgwyl (ie, dyna'r cylch mawr melyn yng nghanol yr awyr), mwynhawyd barbeciw yn Ynys-las bnawn dydd lau, 4 Medi.

Daeth tua dwsin o ieuenctid ynghyd i chwarae gêmâu traeth a blasu'r byrgers.



Bydd gweithgareddau'r tymor newydd yn dechrau gyda sesiwn celf yn ysgol Tal-y-bont nos lau, 2 Hydref, am 7 o'r gloch. Sesiwn *hands-on* fydd hwn, felly peidiwch â dod yn eich dillad *designer*!

Os ydych chi rhwng 11 ac 18 oed (oedran ysgol uwchradd), beth am droi i mewn i fwynhau cymdeithasu—ac mae croeso i chi ddod â ffrind gyda chi hefyd.

**Manylion Cyswllt y Gweinidog**  
**Y Parch Wyn Morris,**  
**Berwynfa, Penrhyn-coch,**  
**Aberystwyth, SY23 3EW**  
**01970 820939**  
**berwynfa@btinternet.com**

**Cyhoeddiadau'r Ofalaeth**  
**a rhai digwyddiadau eraill**

- 30 Medi: Rihysal ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*  
 Capel Bethel, Aberystwyth, am 7 o'r gloch
- 7 Hydref: Rihysal ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*  
 Capel y Garn am 7 o'r gloch
- 9 Hydref: Noson Hyfforddiant i athrawon ysgolion Sul,  
 arweinwyr plant ac ieuenctid  
 Canolfan Sant Paul, Aberystwyth, 6.30–9.30 pm
- 10–11 Hydref: *Iesu!* Drama newydd Aled Jones Williams  
 Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth  
 am 7.30 o'r gloch
- 14 Hydref: Recordio *Caniadaeth y Cysegr*  
 yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch
- 1 Rhagfyr: Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth  
 yn Ffestri'r Garn am 7 o'r gloch
- 14 Rhagfyr: Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth  
 yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
- 25 Rhagfyr: Oedfa gymun i'r Ofalaeth dan arweiniad y Bugail  
 am 9 o'r gloch ar fore'r Nadolig yng Nghapel y Garn
- 31 Rhagfyr: Gwynnos dan arweiniad y Bugail  
 yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m.

**Ysgol Sul y Garn**

Bore Sul, 22 Mehefin, daeth Miss Delyth Davies, Pen-llwyn, i ymweld â'r ysgol Sul ar ran Pwyllgor Addysg Gristnogol yr Henaduriaeth. Cafwyd amser difyr iawn yn ei chwmmi a bu'n trafod a gweld gwaith y plant ar y thema 'Arwyr', gan gynnwys storiâu Ruth, Samuel a Daniel, o'r Hen Destament. Diolch i'r amrywiol athrawon a fu'n cymryd eu tro eleni, ac i Meinir Roberts a Delyth Morgan a oedd yn bresennol ar y Sul arbennig yma.

Yna, y Sul canlynol, 29 Mehefin, teithiodd nifer o'r plant a'u rhieni draw i ysgol Llanfarian i Wyl yr Ysgolion Sul. Thema'r wyl eleni oedd 'Ffrindiau' ac fe gafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn grwpiau gwahanol, gan gynnwys cerdd a chrefft, lle cafodd pob plentyn ac oedolyn, yn eu tro, arwyddo eu henwau ar wisg Iesu – ffordd ymarferol o ddangos i bwy yr ydym yn perthyn.

Y gŵr gwadd oedd Ifan Tregaron, a gyda help Carlo cyflwynodd ddameg y Ddafad Golledig. Yna, cafwyd gwasanaeth byr dan arweiniad y Parchedigion Wyn Morris a Nicholas Bee, a chyflwynwyd tystysgrifau gweithgaredd i'r ysgolion Sul. Yn heulwen diwedd y prynhawn, cafodd y plant fwynhau'r chwaraeon amrywiol a drefnwyd gan Mrs Anwen Davies.

Daeth blwyddyn yr ysgol Sul i ben fore Sul, 13 Gorffennaf, gyda gêmiau a pharti a drefnwyd gan athrawon yr ysgol Sul.

Yn dilyn seibiant dros yr haf, mae'r ysgol Sul wedi aildddechrau – a braf yw gweld plant newydd yn ymuno â ni. Croeso cynnes iawn i chi – ac i unrhyw blentyn arall sydd am ddod i'r ysgol Sul.



**Trip yr ysgol Sul – Dydd Sadwrn, 25 Hydref, i Aberteifi**



Cyfle i'r plant fwynhau Teifimania, ac i'r rhai hŷn ymweld â thref Aberteifi.

Enwau i Delyth Morgan (820656) erbyn 13 Hydref, os gwelwch yn dda.

## **Morganiaid Glanfrêd**

A ninnau'n dal i fyw yng nghanol anialwch o focsys flwyddyn gron ers symud i Fferm Glanfrêd, Llanfihangel Genau'r Glyn, mae'n deg dweud ein bod yn dal yn dipyn o newydd-ddyfodiaid. Er y bocsys, rydym wedi derbyn croeso cynnes iawn gan bobl yr ardal, yn cynnwys ein cyfeillion newydd yng Nghapel y Garn.

Mae'n plant wedi setlo'n arbennig o dda, gyda Rhys Tanat (6 oed) ym Mlwyddyn 1 yn Ysgol Rhydpennau ac Elain Tanat (3 oed) yn yr Uned Feithrin. Ganed Llio Tanat, yr ieuengaf o'r tri, fis Hydref 2007 yn Ysbyty Bronglais ac mae ei thad yn falch iawn iddo lwyddo i gael Cardi llawn arall yn y tŷ. Maent wrth eu bodd â'u ffrindiau newydd ac yn mwynhau'n arw yr ysgol Sul yn y Garn. Bu hefyd yn bleser mawr i ni fel teulu allu dathlu bedyddio Llio yn y Garn fis Gorffennaf. Diolch i'r Gweinidog ac i bawb am eu caredigrwydd.

Ers rhai misoedd bellach mae Cêd wedi cychwyn ar swydd ran-amser yn adran Cymraeg i Oedolion y Brifysgol. Ar y cyd â chyfeillion newydd, mae hefyd wedi helpu i sefydlu Cylch Ti a Fi yng Nghapel Bethlehem, Llanfihangel Genau'r Glyn.

Magwyd Cêd yn yr Wyddgrug, yn ferch i Huw a Liz, Y Fron. Collodd Liz ei brwydr yn erbyn Lewcemia yn 2001. Ers sawl blwyddyn cyn hyn bu Huw a Liz yn codi miloedd tuag at elusen Ymchwil Lewcemia ac mae Huw yn parhau'n bwyllgor-un-dyn dros yr achos pwysig hwn. Yn ei gyrfa bu Liz yn Athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Uwchradd Penarlâg. Oherwydd ei safle mor agos at y ffin cafodd Liz y ffrindiau annisgwyl o addysgu dau unigolyn amlwg ym myd pêl-droed, Gary Speed a Michael Owen – y naill yn gyn-gapten Cymru a'r llall yn gyn-gapten Lloegr. Magwyd Liz yn Nyffryn Tanat ym mwynder hardd Maldwyn, a dyna i chi darddiad enw canol y plantos.

Fe'm magwyd innau ym mhentref Beulah yng ngodre Ceredigion gyda mam yn gwasanaethu'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn y cylch a'r tu hwnt am flynyddoedd lawer a'm tad yn chwaraewr golff proffesiynol (ac yn Swyddog Cyhoeddusrwydd i Gyngor Sir Dyfed yn ei amser hamdden). Wrth i safon y golff ddirywio bu'n gwasanaethu'r Fainc yng Ngheredigion am chwarter canrif ac yn aelod o fwy o bwyllgorau nag sy'n gall. Rwy'n gweithio i Gyngor Sir Ceredigion yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ond yn gobeithio am faddeuant yn y pen draw.

Carwn ddiolch i bawb am y croeso i'r fro ac i gymuned yr eglwys. Wedi bod yn aelodau hapus yng Nghapel Salem yn Nhreganna, Caerdydd, mae'r daith i'r Garn wedi bod yn un rwydd a chyfeillgar tu hwnt. A bo gennych angen brys am focsys, ffoniwch!

*Rhodri Llwyd Morgan*




## **Dathlu Caniadaeth y Cysegr**

Yn ystod yr hydref eleni byddwn yn dathlu dau ddigwyddiad pwysig yn hanes caniadaeth y cysegr. Ym mis Hydref bydd pum mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r gyfrol gyntaf o *Clap a Chân i Dduw* gan Eddie Jones a Falyri Jenkins ac yna, ym mis Tachwedd, byddwn yn dathlu canmlwyddiant geni'r diweddar W Llewelyn Edwards.

I nodi'r achlysuron hyn cytunodd Cedric Jones o gwmni Andante i recordio detholiad o ganeuon o *Clap a Chân* – yn cael eu canu gan ddisgyblion Ysgol Rhydpennau – a chwech o donau W Llewelyn Edwards ar gyfer rhaglen arbennig o *Canuadaeth y Cysegr*. Recordir y detholiad o donau W Llewelyn Edwards mewn cyfarfod arbennig, ar ffurf cymanfa fer, yng Nghapel y Garn, **nos Fawrth, 14 Hydref 2008 am 7 o'r gloch**.

Estyynnir gwahoddiad cynnes i aelodau / cantorion holl eglwysy ardal Gogledd Ceredigion i ymgynnull i ffurfio cynulleidfa / côr teilwng i ddathlu'r achlysur. Byddaf yn dra diolchgar am bob cefnogaeth.




Cynhelir dwy rihyrsal ymlaen llaw fel a ganlyn, am 7 o'r gloch:

**Nos Fawrth, 30 Medi 2008  
yn Festri Capel Bethel, Stryd y Popty,  
Aberystwyth**

**Nos Fawrth, 7 Hydref 2008  
yng Nghapel y Garn, Bow Street**

Gofynnir i bawb ddod â chopi o *Caneuon Ffydd a Detholiad 2006–2007* gyda nhw.

*Alan Wynne Jones*





## **Y Dosbarth Beiblaidd**

Thema maes llafur yr ysgol Sul (a'r Dosbarth Beiblaidd) am eleni yw *Bob Dydd Bendithiaf Di*, sef cyfres o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar y flwyddyn a'i thymhorau. Paratowyd gwerslyfr arbennig gan y Parchedig Ieuan Elfryn Jones, Y Coleg Gwyn, Bangor, a gellir archebu copïau o Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru.



Dyma ddywed yr awdur yn ei Ragymadrodd i'r gwerslyfr: 'Ynddo, edrychwn ar lawer agwedd o fyd y Cristion, gan gynnwys hanes, traddodiadau, dod i ffydd a chadarnhau ein perthynas â Christ ei hun ... edrychwn yn fras ar adegau o'r flwyddyn sy'n canolbwyntio ar wyliau traddodiadol yr eglwys; a hefyd un neu ddau o ddyddiau seciwlar sy'n cofnodi digwyddiadau nodedig neu yn cysylltu â hanes cyfnod y seintiau Celtaidd.'

Rhannwyd y gwerslyfr i bedwar tymor y flwyddyn. Dechreuir gyda thymor yr hydref, ac eir ymlaen wedyn drwy'r gaeaf, y gwanwyn a'r haf. Y mae pob tymor yn cynnwys 11 gwers ac fe'u trefnwyd yn y fath fodd fel y gellir trafod ac ymchwilio ymhellach i'r hyn a gyflwynwyd.

Y mae croeso cynnes i chi ymuno â'r Dosbarth a gynhelir yn wythnosol yn un o gapeli'r ofalaeth. Os nad ydych yn siŵr o'r lleoliad, neu'r dyddiad a'r amser, fe gewch y manylion ar wefan y Garn, neu gan Ysgrifennydd eich capel, neu Ysgrifennydd yr Ofalaeth.

### **Blaenoriaid Newydd**

Mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, nos Fercher, 16 Gorffennaf, ordeiniwyd Mrs Ina Tudno Williams a chroesawyd Mr Roland Williams yn flaenoriaid ar Eglwys Seion, Capel Seion. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Ddr John Tudno Williams, Llywydd yr Henaduriaeth, a phregethwyd gan Mr Phylip Jones, Llywydd Sasiwn y De.

## **Capel Seion**

**Yr ysgol Sul** Fore Sul, 13 Gorffennaf, ymwelodd Mrs Jên Ebenezer, Ponrhydfendigaid, â'r ysgol Sul yn Seion i arolygu gwaith y dosbarthiadau am y flwyddyn. Thema'r gwaith oedd 'Arwyr'. Bu'r plant yn paratoi eu llyfrau unigol o arwyr cyfoes o blith aelodau'r teulu, byd y canu pop a chwaraeon. Wedi paned a sgwrs fer i gychwyn, cafodd yr oedolion y dasg o ateb cwestiynau am eu harwyr hwy ar ffurf holiadur, ac Eirlys Jones yn holi. Ymhlith yr arwyr roedd R Alun Edwards, Nelson Mandela a John Davies, Mallwyd. Paratowyd cyflwyniad llafar ac arddangosfa gan y plant o waith y flwyddyn ac yn benodol arwyr y Beibl o'r gwerslyfrau dan ofal Eirlys Williams, Angharad Jones, Eirlys Jones, Magdalen Davies ac Olwen Jones. Canmolwyd y paratoi a'r cyflwyno gan Jên Ebenezer. Yn dilyn, mwynhawyd picnic a chwaraeon yn y Ganolfan Ymwelwyr, Cwm Rheidol, ar ddiwrnod poeth o heulwen braf yn glo ar flwyddyn arall o weithgarwch bywiog yn yr ysgol Sul.

**Pererindota** Yn ystod mis Awst trefnwyd dwy bererindod ar brynhawniau Sul, un i Fallwyd ar 17 Awst a'r llall i Swyddffynnon ar 24 Awst. Pwrpas yr ymweliad â Mallwyd oedd cofio am un o arwyr ein cenedl, a gyfrannodd gymaint i ddiwygio Beibl William Morgan ym 1620 ymhlith llawer o gymwynasau eraill, sef y Dr John Davies, rheithor Mallwyd ac eglwysy eraill yn y cylch rhwng 1604 a 1644. Croesawyd ni yno gan y ficer presennol, sef y Parch. Raymond Barnes, a Warden yr eglwys. Offrymwyd gweddi agoriadol gan Ina Tudno Williams ac yna amlinellwyd hanes John Davies gan John Tudno Williams. Yn dilyn, cawson flas ar hanes traddodiad hir a di-dor y plygain yn yr eglwys gan Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, sydd wedi bod yn mynychu'r Blygain yno ar 13 Ionawr yn flynyddol ers cryn amser.

Capel Swyddffynnon oedd y gyrchfan ar 24 Awst, sef capel a bro enedigol y ddiweddar Margaret Ann Evans, Brynawel, Capel Seion. Soniai gymaint amdanynt yn yr ysgol Sul yn Seion ac enillodd gystadleuaeth traethawd Eisteddfod y Ddolen bum mlynedd yn ôl am ei hatgofion o'r fro. Gyda nifer o aelodau a ffrindiau'r eglwys yn bresennol i'n croesawu, braint fu cydaddoli mewn oedfa o atgofion â nifer yn cymryd rhan. Estynnwyd croeso gan John Gwyn Jones, cafwyd darlleniadau gan Eirlys Jones, Elen Lewis a Magdalen Davies, gweddi gan John Gwyn, emynau gan Mrs Davies, Llwyndu, a Jane Morgan, unawdau gan Olwen Jones a John Tudno, ac atgofion o'r traethawd buddugol gan Ina Tudno. Diolchwyd am oedfa fendithiol iawn gan y blaenor, Mr Dafydd Jones, ac yna lawr â ni am de i Ji-Binc, Aberaeron, a chroeso cynnes Rhian, Dai, Swyn ac Eos a'r staff yno.



## **Y Gerlan**

### **Y Gymdeithas**

Daeth y tymor i ben gyda'r trip blynyddol ddydd Mawrth, 24 Mehefin. Cawsom dywydd godidog – peth amheuthun iawn yr haf hwn. Galwyd heibio i fedd Ceiriog yn Llanwnog, yna Cae'r Fendith ger Aberhafesp, ac yna i Ganolfan Robert Owen yn y Drenewydd. Aeth y daith â ni ymlaen i ardaloedd oedd yn ddieithr i'r rhelyw o'r teithwyr, sef y darn hyfryd o Gymru rhwng y Drenewydd a Llwydlo. Nodwyd cyfraniad Vavasor Powell wrth deithio drwy Ceri. Treuliwyd awr o hamddena yn Siop y Ffermwyr yn Llwydlo uwch paned a hufen iâ.

Cawsom gyfle i alw yng Nghanolfan Clawdd Offa yn Nhrefyclawdd ac yna pryd o fwyd penigamp yng Ngwesty Hafren ym Mhen-y-bont, nepell o Landrindod, cyn teithio tuag adre.



### **Children's Beach Mission**

Bob blwyddyn daw criw brwdfrydig o oedolion a phobl ifanc o ganolbarth Lloegr i gynnal gweithgareddau ar y traeth ac yn Festri'r Gerlan i blant o bob oed. Cânt fendith fawr a hwyl yng nghwmni'r tîm. Braf oedd cael cwmni rhai ohonynt yn yr oedfa ar y Sul olaf o Orffennaf.

## **Ymweliad y Parch. Ddr Lianzula**



Nos Sul, 7 Medi cafwyd oedfa arbennig iawn yng Nghapel y Garn dan arweiniad ein Gweinidog. Yn bresennol yn yr oedfa yr oedd y Parch. Ddr P L Lianzuala o Aizawl, Mizoram, a oedd ar ymweliad â Chymru yn ymchwilio i hanes y cenhadon cyntaf a aeth o Gymru i Mizoram.

Cyn iddo ymddeol, bu'r Parch Lianzula yn weinidog ac yn Llywydd Eglwys Bedyddwyr Mizoram. Braint oedd gwranddo arno'n sôn am weithgaredd yr eglwys Gristnogol ym Mizoram; roeddent yn cynorthwyo rhai anghenus oedd yn dioddef o newyn, yn lleol ac yn Burma, yn ogystal ag anfon cenhadon allan i wledydd megis China a Thailand. Cyfeiriodd hefyd at yr erlid sy'n digwydd i Gristnogion mewn rhai rhannau o'r wlad, a gofynnodd am ein gweddïau ar eu rhan.

I ddiweddu'r oedfa, cyflwynodd weddi daer yn yr iaith Mizo y bydd i Gymru hithau brofi adfywiad tebyg i'r hyn a gafwyd yn ei wlad yntau.

## Rehoboth



### Ffarwelio â dau flaenor

Daw llawer o bleser a hapusrwydd bywyd o adnabod cyfaill da. Ond gall cyfeillgarwch ddod â thristwch hefyd, yn enwedig pan fydd rhaid inni, oherwydd amgylchiadau, ffarwelio â chyfeillion. Yng nghanol mis Medi, roedd rhaid i aelodau Rehoboth ddweud ffarwél wrth Emyr ac Edna Thomas, Lletylwydin, Tre'rddol, wrth iddynt symud i'w cartef newydd yn Cross Inn, ger Cei Newydd.

Symudodd y ddau i Lletylwydin tuag ugain mlynedd yn ôl – Edna yn dychwelyd yn agos i'w gwreiddiau yn Nhal-y-bont. Wedi iddynt ymaelodi yn Rehoboth, daeth yn amlwg yn fuan ein bod ni wedi cael dau aelod gweithgar a ffyddlon iawn, dau oedd yn barod i roi eu gorau i'r capel ac i'r gymdeithas ehangach. Cyn bo hir daethant yn flaenoriaid, a thrwy fynychu cyfarfodydd yr Ofalaeth yn gyfarwydd i lawer o aelodau o'r eglwysi eraill – yn adnabyddus fel pobl hynaws a charedig, ond hefyd fel pobl ddibynadwy â rhuddin yn eu cymeriad.

Gyda threigl amser, penderfynasant symud yn nes at eu mab, Gerwyn, yn Aberaeron.

Nos Fawrth, 16 Medi, cawsom gyfarfod bach anffuriol yn festri Rehoboth i ffarwelio â nhw gyda sgwrs a chlonc dros banded.

Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd a gobeithiwn eu gweld yn ôl yn aml yn Nhaliesin.

## Grŵp Help Llaw y Garn



Croeso i chi unwaith eto i droi i mewn i'r Garn am 2.30 p.m. ar brynhawn Mercher i fwynhau paned a sgwrs, ac i ymuno mewn gwahanol weithgareddau os dymunwch.

Yn ystod mis Awst cyflwynwyd dros fil o hetiau bychain bach (mini bobble hats) wedi eu gwau i Jane Raw Rees, Aberystwyth. Mae cwmni Sainsbury yn rhoi 50c i Gofal Henoed Ceredigion am bob potel o Innocent Smoothie sy'n cael ei gwerthu'n gwisgo un o'r hetiau yma. Felly, dyna £500 at yr achos teilwng hwn.



Cafwyd ymateb gwych i Apêl Achub y Plant am hetiau bach i fabanod newydd-anedig yn Kenya, Sierra Leone a Tibet. Aethpwyd â 300 o hetiau bach lliwgar i'r ganolfan yng Nghaerdydd trwy garedigwydd Gaenor a Gareth William Jones, Hafle. Diolch o galon am y gymwynas barod yma.

O hyn i'r Nadolig fe fyddwn ni'n cefnogi'r elusen Operation Christmas Child trwy lenwi bocsys sgidiau gydag amrywiaeth o bethau addas ar gyfer bachgen neu ferch 2–4, 5–9, 10–14 oed. Mae bocsys wedi eu paratoi gan Eddie Jones a phamffledi gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar gael.

Diolch am eich cefnogaeth hael a chyson.

Shân Hayward (828268)

Bethan Jones (611502)

## **Rhagfyr**

*Blaenor y Mis: Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Erddyn James / Vernon Jones*

- 2 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
Cyfarfod yn naws y Nadolig
- 7 Dr Rhidian Griffiths am 10 o'r gloch  
Bugail am 5 o'r gloch
- 14 Oedfa Nadolig plant yr Ofalaeth yn y Garn  
am 10 o'r gloch
- 19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Brethyn Nadolig' – Aelodau ac eraill
- 21 Gwasanaethau Nadolig dan arweiniad y Bugail
- 25 Oedfa gymun i holl aelodau'r Ofalaeth  
ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch  
dan arweiniad y Bugail
- 28 Hywel Slaymaker
- 31 Gwynnos dan arweiniad y Bugail am 11.30 p.m.

### **Cymdeithas Chwiorydd y Garn**

*Llywydd:* Y Barch. Judith Morris

*Cadeirydd:* Gwenda Edwards

*Ysgrifennydd:* Shân Hayward

*Trysorydd:* Vera Lloyd

*Aelodau'r Pwyllgor:* Nans Morgan; Llinos Dafis;

Dwysli Peleg-Williams; Meinir Roberts; Meinir Lowry;

Kathleen Lewis; Gwenan Price

Mae'r Chwiorydd yn cwrdd ar y pŵn Mercher cyntaf yn y mis, am 2.30 o'r gloch yn festri'r Garn. Croeso cynnes i bawb.

## **Hydref**

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Marian B Hughes / D Bryn Lloyd*

- 1 Cyfarfod Diolchgarwch Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
dan arweiniad y Barchedig Judith Morris
- 5 Richard Llwyd Jones
- 7 Rihysal ar gyfer recordio *Caniadaeth* y *Cysegr* i ddathlu  
cyhoeddi *Clap a Chân* a chanmlwyddiant W Llewelyn Edwards  
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch
- 12 Parchedig M J Morris
- 14 Recordio *Caniadaeth* y *Cysegr* gan gwmni Andante  
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch
- 17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
Darlith agoriadol gan yr Arglwydd Elystan-Morgan
- 19 Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad y Bugail am 10 o'r gloch  
Gwasanaeth y Cymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch
- 23 Cyfarfod Diolchgarwch Bethlehem am 7 o'r gloch  
Pregethwraig wadd: Y Barchedig Enid Morgan
- 26 Parchedig Wiliam Owen

### **Newid ysgrifennydd**

Hoffem fynegi ein diolch diffuant i Eddie Jenkins am ei waith fel ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod o saith mlynedd, o'r flwyddyn 2000 hyd at fis Ebrill eleni. Trwy gydol y cyfnod hwn, gwnaeth ei waith gydag urddas a'i ddoethineb arferol, ac mae aelodau'r eglwys yn fawr eu dyled iddo.

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Alan Wynne Jones am ymgymryd â'r ysgrifenyddiaeth ac yn dymuno pob rhwyddineb iddo yn y gwaith.

Manylion cysylltu: Trem-y-ddôl, Bow St, Ceredigion, SY24 5BJ



## ***Nodiadau Ariannol***

### **Cau'r llyfrau am 2008 a chynnydd yn y costau**

Diolchwn yn fawr iawn eto eleni i nifer dda ohonoch am gyfrannu i gronfeydd yr eglwys mewn da bryd. Er hynny, sylwn fod yna gryn nifer heb gyfrannu hyd yma ac fe apeliwn yn daer arnoch i wneud hynny'n fuan, ac yn sicr erbyn 30 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Ni ellir pwysleisio gymaint y mae hyn yn hwyluso cau'r llyfrau yn brydlon ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae costau byw cyffredinol yn cynyddu'n fawr ar hyn o bryd, ac felly hefyd dreuliau cynnal a chadw adeiladau'r eglwys. Tanwydd, trydan a nwy yw'r elfennau amlwg hynny – sef cynnydd oddeutu 45–55% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac eisoes eleni cyhoeddwyd y bydd codiadau pellach o tua 60% yn y costau hyn o fewn y ddwy flynedd nesaf. Yn ychwanegol eleni, fel y nodwyd yn y rhifyn diwethaf o *Gair o'r Garn*, cafwyd costau annisgwyl gyda difa pydredd (yn y gegin a chornel gefn y capel), a swm terfynol y gwaith yw £2,976.

Mae'r costau uwch yma yn naturiol yn effeithio'n bur drwm ar ein cyllido ac apeliwn yn garedig iawn am eich cefnogaeth ariannol ychwanegol. Sylweddolwn fod apêl fel hon yn drwm ar adnoddau rhai ohonom ond yn rhan fechan o adnoddau eraill, ac erfyniwn am eich ymdrech yn ôl eich sefyllfa.

Pe bai aelodau am adolygu eu dull cyfrannu mae modd gwneud hynny drwy drefniant archeb banc, a byddem yn annog i nifer ohonoch ystyried gwneud hynny, os yw'n gyfleus i chi. Byddai hyn yn golygu llif ariannol mwy cyson drwy gydol y flwyddyn i'r Trysorydd gan y byddai'r cyfraniadau'n dod i mewn yn rheolaidd i gyfarfod ag anfonebau a dderbynnir o fis i fis! Fe ellir cael y ffurflen briodol gan yr Ysgrifennydd Ariannol, D Bryn Lloyd.

#### **Llongyfarchiadau a phob dymuniad da:**

i Lowri Jones ac Owain, i Elfyn Lloyd Jones ac Anna, ac i Richard Evans a Lynwen, a briodwyd yn ystod yr haf;

i Osian Penri ar ei lwyddiant yn ei arholiadau Lefel A, phob hwyl i ti yn dy gwrs meddygol yng Nghaerdydd;

i'r Athro Gruffydd Aled Williams, sydd newydd ymddeol o'i swydd fel Pennaeth Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth.

## ***Tachwedd***

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Dewi G Hughes*

- 2 Parchedig J E Wynne Davies
- 5 Cymdeithas Chwirydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
'Wyt ti'n gêm?' gyda Glyn a Gill Saunders Jones
- 6 Cyfarfod Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch
- 9 Parchedig Tudor Davies am 10 o'r gloch  
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre,  
dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch
- 16 Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa  
Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch
- 21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Cymdeithas Achub y Plant' – Kate Crockett
- 23 Parchedig Stephen Morgan
- 29 Ffair y Garn, dan ofal y Chwirydd  
yn Neuadd Rhydypennau, 10–12 o'r gloch
- 30 Parchedig J R Jenkins

### ***Cymdeithas Lenyddol y Garn***

*Llywydd:* Y Parch. Wyn Morris

*Cadeirydd:* Bryn Lloyd

*Is-gadeirydd:* Mary Thomas, Dolgellyn

*Ysgrifennydd:* Mary Thomas, Tŷ Clyd

*Trysorydd:* Bet Evans

*Trefnyddion y Bwyd:* Elina Davies, Margaret Rees

*Aelodau'r Pwyllgor:* Gaenor Hall; Vernon Jones; Janet Roberts; Llinos Dafis; Shân Hayward; Erddyn James; Dewi Hughes

Bydd y Gymdeithas yn cwrdd yn am 7.30 o'r gloch yn festri'r Garn ar y 3ydd nos Wener yn y mis o fis Hydref i fis Mawrth. Tâl aelodaeth: £1